## Beth sy'n digwydd pan fydd eich plentyn yn symud o ofal plant neu gartref i ysgol?

Dylech drefnu i ymweld â'r ysgol i roi cyfle i chi gwrdd â'r staff addysgu ac ystyried sut y byddant yn ymateb i anghenion dysgu a datblygu eich plentyn. Bydd gan yr ysgol ddarlun llawnach o anghenion eich plentyn cyn iddo ddechrau.

Os oes gan eich plentyn Gynllun Datblygu Unigol (CDU), bydd yr ALl yn dweud wrth yr ysgol am gynnal y CDU. Dylid cofnodi'r holl drefniadau pontio yn adran 3C o'r CDU.

Fodd bynnag, ni fydd yr ysgol yn cynnal y CDU os yw'r plentyn yn derbyn gofal.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i gynnal y CDU ar gyfer pob plentyn sy'n derbyn gofal.

Rhaid i bob awdurdod lleol ddynodi swyddog awdurdod lleol o'r enw Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar i fod â chyfrifoldeb am gydlynu swyddogaethau'r awdurdodau lleol o dan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg mewn cysylltiad â phlant o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt eto'n mynychu ysgol a gynhelir. Bydd hefyd yn datblygu ac yn cynnal perthynas effeithiol â'r holl wasanaethau eraill sy'n gweithio gyda charfannau blynyddoedd cynnar yr awdurdod lleol, gan gynnwys gwasanaethau iechyd a phlant.

Gallwch gysylltu â Swyddog Arweiniol ADY y BC Caerdydd ar; TimCynhwysiantBlynyddoeddCynnar@caerdydd.gov.uk

**Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch am ailystyriaeth neu fater sy'n ymwneud ag ADY, gallwch gysylltu â'n llinell gymorth a chyngor ar: Ffôn: 02920 872 731**
**E-bost: LlinellGymorthADY@caerdydd.gov.uk**

Crëwyd Hydref 2023

UCHELGAIS PRIFDDINAS CAPITAL AMBITION
CARDIFF CAERDYDD

**Taflen 7**

Gwybodaeth i rieni

# Canllaw i'r BLYNYDDOEDD CYNNAR



UCHELGAIS PRIFDDINAS CAPITAL AMBITION
CARDIFF CAERDYDD

## Ble gallaf ddod o hyd i wybodaeth am Ddarpariaeth Blynyddoedd Cynnar yng Nghaerdydd?

Yng Nghaerdydd, mae llawer o wahanol fathau o ddarpariaeth gofal plant a meithrinfeydd megis gwarchodwyr plant, cylchoedd chwarae, meithrinfeydd annibynnol a meithrinfeydd a gynhelir ynghlwm wrth ysgolion.

Am fwy o wybodaeth, ewch i'r ddolen ganlynol:
www.cardiff.gov.uk/ENG/resident/Schools-and-learning/Schools/Applying-fora-school-place/Nursery/Pages/default

## Sut mae sicrhau cynhwysiant i bob plentyn?

Mae pob plentyn yn wahanol a gall datblygiad ddigwydd ar wahanol adegau am wahanol resymau. Mae gan ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar brofiad o arsylwi a chasglu gwybodaeth bwysig am waith y plentyn a'r lleoliadau i leihau rhwystrau amgylcheddol a chymdeithasol i gynhwysiant a chynnig cyfleoedd i bob plentyn gyflawni ei lawn botensial wrth baratoi ar gyfer dysgu pellach a bywyd.

Bydd ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar yn monitro cynnydd eich plentyn wrth iddo ddatblygu a thyfu. Dylai'r broses hon nodi cryfderau'r plentyn ac unrhyw feysydd lle nad yw cynnydd y plentyn yn ôl y disgwyl. Os codir unrhyw bryderon ynghylch cynnydd eich plentyn, dylid gwneud pob ymdrech i fodloni'r anghenion hynny o fewn y ddarpariaeth bresennol.

Mae lleoliadau Blynyddoedd Cynnar yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod anghenion pob plentyn yn cael eu bodloni gan ddefnyddio eu harbenigedd, eu hyfforddiant a'u gwybodaeth. Dylai lleoliadau ddarparu amgylchedd cynhwysol effeithiol ac ymdrechu i ddileu unrhyw rwystrau posibl a allai rwystro datblygiad neu ddysgu.

## Beth ddylech chi ei wneud os oes gennych bryderon ynghylch datblygiad eich plentyn?

Os oes gennych unrhyw bryderon am ddatblygiad neu gynnydd eich plentyn, dylid trafod hyn i ddechrau gyda'r lleoliad blynyddoedd cynnar y mae eich plentyn yn ei fynychu, a/neu ymwelydd iechyd. Gall y lleoliad drafod yr hyn sydd ganddo ar waith ar gyfer eich plentyn a sut y mae'n bodloni ei anghenion.

Ni ddylid tybio bod gan blant anghenion ychwanegol dim ond am fod eu cynnydd yn arafach nag eraill. Pan ymddengys fod plentyn yn gwneud cynnydd cyfyngedig neu gynnydd araf iawn, naill ai'n gyffredinol neu mewn agwedd benodol ar ddatblygiad, yna efallai y bydd angen cyflwyno cyfleoedd gwahanol iddo, neu ddefnyddio dulliau amgen. Gall anawsterau sy'n parhau ddangos bod gan eich plentyn anghenion ychwanegol sydd angen lefel o gymorth uwchlaw'r hyn sydd ar gael yn y lleoliad.

## Beth fydd yn digwydd os gall fy mhlentyn fod ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)?

Efallai y bydd gan ychydig iawn o blant anghenion sylweddol, cymhleth a gydol oes na ellir darparu'n rhesymol ar eu cyfer o fewn yr adnoddau sydd ar gael i'r lleoliad blynyddoedd cynnar. Mewn rhai achosion, bydd angen darpariaeth ychwanegol ar leoliad blynyddoedd cynnar er mwyn cefnogi dysgu'ch plentyn. Os yw hyn yn wir, yna bydd angen i naill ai'r lleoliad neu weithiwr iechyd proffesiynol sy'n ymwneud â'ch plentyn hysbysu'r Awdurdod Lleol y gallai fod gan eich plentyn ADY. Gellir gwneud hyn drwy wneud atgyfeiriad Blynyddoedd Cynnar i banel Cynhwysiant y Blynyddoedd Cynnar.

Mae Panel Cynhwysiant y Blynyddoedd Cynnar yn grŵp amlasiantaethol sy'n cynllunio, monitro ac adolygu plant ag anghenion sy'n dod i'r amlwg ac ADY neu Anableddau yn unol â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 - Deddf ADYTA 2018

Efallai y bydd rhai plant ag anghenion sylweddol a/neu gymhleth gydol oes eisoes wedi eu nodi fel rhai ag Angen Dysgu Ychwanegol neu Anabledd cyn dechrau lleoliad Blynyddoedd Cynnar. Bydd Panel Cynhwysiant y Blynyddoedd Cynnar a/neu'r Tîm Cynhwysiant Blynyddoedd Cynnar eisoes yn adnabod y plant hyn, wedi cynllunio darpariaeth briodol, ac yn parhau i fonitro ac adolygu eu hanghenion.

I gael rhagor o wybodaeth am banel Cynhwysiant y BC, e-bostiwch;
EarlyYearsInclusionTeam@cardiff.gov.uk